# Ysgol Gymunedol Rhydypennau




# Ein Cwricwlwm

## Gweledigaeth Ein Hysgol

Tyfu a Dysgu Gyda'n Gilydd

CYMREICTOD, CYMUNED,
CAREDIGRWYDD, CYFLEOEDD



Mae Ysgol Rhydypennau yn darparu amgylchedd ddysgu hapus ac uchelgeisiol i blant ardal Rhydypennau, Pen-y-garn a dalgylch ehangach Bow Street. Ein bwriad ydy meithrin unigolion iach a hyderus, sy'n tyfu'n ddysgwyr annibynnol a chreadigol, chwilfrydig ac egwyddorol. Mae ein disgyblion yn ymfalchïo yn eu Cymreictod, yn falch o'u gwreiddiau ac yn parchu gwahaniaethau.

Trwy ein cwricwlwm, rydym yn darparu profiadau sy'n datblygu hyder, gwytnwch a dyfalbarhad disgyblion; a rhoi iddynt lwyfan sy'n caniatáu iddynt ffynnu mewn amgylchedd heriol ond empathetig.



## Our School's Vision

Growing and Learning Together

WELSHNESS, COMMUNITY,
KINDNESS, OPPORTUNITIES



Ysgol Rhydypennau provides a happy and ambitious learning environment to the children of Rhydypennau, Pen-y-garn and the wider catchment area of Bow Street. Our aim is to nurture healthy and confident individuals, allowing pupils to develop as independent, creative, inquisitive and ethical learners. Our pupils take pride in their Welshness, are proud of their roots and respect differences.

Through our curriculum, we provide experiences that fosters pupils' confidence, resilience and perseverance; offering a platform that allows children to thrive in a challenging yet empathetic environment.

## Ein Cwricwlwm

Cenhadaeth Ysgol Gymunedol Rhydypennau yw darparu profiadau addysgol o ansawdd uchel bydd yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn elwa o gyfleoedd pwrpasol i wireddu eu llawn botensial. Mae'r iaith Gymraeg yn ganolog i'r weledigaeth hon, a rhoddir pwyslais ar ddatblygiad medrau ieithyddol pob un. Er mwyn gwireddu hyn, mae'r ysgol, trwy ei waith beunyddiol, yn rhoi sylw manwl i adeiladu hunanhyder disgyblion sy'n caniatâi iddynt ddatblygu'n unigolion hyderus sy'n fodlon mentro.

Credwn fod ethos cynhwysol a darparu cyfleoedd cyfartal i bawb yn bwysig. Rydym yn angerddol ynglŷn â sicrhau bod pob unigolyn yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol, wedi ei werthfawrogi, ac yn rhydd rhag unrhyw ragfarn. Trwy ein gwaith, rydym yn hyrwyddo dulliau 'person canolog' sy'n effeithiol wrth baratoi dysgwyr i gofleidio heriau'r dyfodol ac sy'n sicrhau bod anghenion ac uchelgais pob disgybl wrth wraidd ein cynllunio.

Fel ysgol gymunedol, rydym yn darparu cyfleoedd i'r disgyblion wneud cysylltiadau adeiladol â'r gymuned, gan bwysleisio manteision ac effaith cadarnhaol cyfrannu'n bositif i fywyd cymunedol yr ardal fel dinasyddion da ac egwyddorol.

Trwy ein cwricwlwm, bydd Ysgol Rhydypennau yn darparu profiadau dysgu cydlynus, gyda phrosesau asesu miniog ar waith sy'n sicrhau fod pob plentyn yn gwneud y cynnydd disgwyliedig. Yn reiddiol i'r weledigaeth hon ac i holl waith yr ysgol, byddwn yn cefnogi pob dysgwr i ddatblygu yn unol â Phedwar Diben Cwricwlwm i Gymru.

## Our Curriculum

Ysgol Gymunedol Rhydypennau's mission is to provide high-quality teaching and learning experiences that will benefit all pupils and enable them to reach their full potential. The Welsh language is central to this vision; therefore, we place an emphasis on developing the language skills of every pupil. In order to achieve this, the school through its daily interactions, focuses on nurturing pupils' self-confidence which, in turn, enables pupils to grow as confident individuals who are prepared to venture and take risks in their learning.

We believe that an inclusive ethos and providing equal opportunities for all is important. We are passionate about ensuring that every individual feels happy and safe at school, valued, and free from any prejudice. Through our work, we promote 'person-centred' methods which are effective in preparing learners to embrace the challenges of the future and which ensure that the needs and ambitions of each pupil are at the heart of our planning.

As a community school, we provide opportunities for our pupils to make constructive connections with the community, emphasizing the benefits and positive impact of contributing positively to the community life of the area as good and principled citizens.

Through our curriculum, Ysgol Rhydypennau will provide coherent learning experiences, with sharp assessment processes in place which ensure that every child makes the expected progress. Integral to this vision and to all the school's work, we will support all learners to develop in accordance with the Four Purposes of the Curriculum for Wales.

| Bydd ein holl blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i ddatblygu yn: | | | |
|---|---|---|---|
| ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n | unigolion iach, hyderus sydd: | **gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n** | **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n** |
| •gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau<br><br>•datblygu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth honno a'i chymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau<br><br>•ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau<br><br>•gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg<br><br>•gallu egluro'r syniadau a chysyniadau y maen nhw'n dysgu amdanyn nhw<br><br>•gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau<br><br>•deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol<br><br>•defnyddio technolegau digidol yn greadigol i rannu gwybodaeth, dod o hyd iddi a'i dadansoddi<br><br>•ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol<br><br>**…ac sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau.** | •â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol ac egwyddorol<br><br>•yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder cadernid ac empathi<br><br>•yn cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer corf ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywyd pob dydd<br><br>•yn gwybod sut i ddod o hyd I'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel a iach<br><br>•yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol<br><br>•yn gwneud penderfyniadau pwyllog ynghylch eu ffordd o fyw ac yn rheoli risg<br><br>•â'r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau<br><br>•yn ffurfio cydberthnasau cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd<br><br>•yn wynebu heriau ac yn eu goresgyn<br><br>•â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallan nhw<br><br>**…ac sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau werthfawr o gymdeithas.** | • cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynnyrch<br><br>•meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau<br><br>•adnabod cyfleoedd ac yn manteisio arnyn nhw<br><br>•mentro'n bwyllog<br><br>•arwain ac yn chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol<br><br>•mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau<br><br>•rhoi o'u hegni a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa<br><br>**…ac sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith** | •canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn<br><br>•trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd<br><br>•deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd<br><br>• deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu<br><br>•wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol<br><br>•parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol<br><br>•yn dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaliadwyedd y blaned<br><br>**…ac sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd.** |

## Bydd ein holl blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i ddatblygu yn:

| ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n | unigolion iach, hyderus sydd: | **gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n** | **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n** |
|---|---|---|---|
| •gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau<br><br>•datblygu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth honno a'i chymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau<br><br>•ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau<br><br>•gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg<br><br>•gallu egluro'r syniadau a chysyniadau y maen nhw'n dysgu amdanyn nhw<br><br>•gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau<br><br>•deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol<br><br>•defnyddio technolegau digidol yn greadigol i rannu gwybodaeth, dod o hyd iddi a'i dadansoddi<br><br>•ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol<br><br>**…ac sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau.** | •â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol ac egwyddorol<br><br>•yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder cadernid ac empathi<br><br>•yn cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer corf ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywyd pob dydd<br><br>•yn gwybod sut i ddod o hyd I'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel a iach<br><br>•yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol<br><br>•yn gwneud penderfyniadau pwyllog ynghylch eu ffordd o fyw ac yn rheoli risg<br><br>•â'r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau<br><br>•yn ffurfio cydberthnasau cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd<br><br>•yn wynebu heriau ac yn eu goresgyn<br><br>•â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallan nhw<br><br>**…ac sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau werthfawr o gymdeithas.** | • cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynnyrch<br><br>•meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau<br><br>•adnabod cyfleoedd ac yn manteisio arnyn nhw<br><br>•mentro'n bwyllog<br><br>•arwain ac yn chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol<br><br>•mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau<br><br>•rhoi o'u hegni a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa<br><br>**•…ac sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith** | •canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn<br><br>•trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd<br><br>•deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd<br><br>• deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu<br><br>•wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol<br><br>•parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol<br><br>•yn dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaliadwyedd y blaned<br><br>**•…ac sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd.** |

# Ein Cwricwlwm

Gyda'n gilydd, rydym wedi cytuno ar gysyniadau dysgu bydd yn rhedeg ar draws ein cwricwlwm fel llinynnau. Mae'r cysyniadau yma'n deillio o'r 27 **datganiad o'r hyn sy'n bwysig.**

Byddwn yn ail-ymweld â'r cysyniadau yma'n gyson ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad er mwyn datblygu metawybyddiaeth 'Sgema' bydd yn arwain at ddysgu dwfn. Byddwn yn cydweithio o fewn a thu allan i'r ysgol er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.

Bydd y broses yma yn sicrhau bod efo pawb dealltwriaeth o gynnydd o fewn ein Cwricwlwm a byddwn yn dylunio cwricwlwm cydlynol ar draws y Continwwm. Rydym eisoes yn gwybod bod plant yn deall pethau'n haws ac yn fwy dwfn os ydym yn cysylltu'r dysgu newydd â phethau maent eisoes yn eu gwybod.

## Hanfod y dysgu mewn cwricwlwm droellog

| Yr Egwyddorion Addysgeg | |
|---|---|
| • Canolbwyntio'n gyson ar ddibenion cyffredinol y cwricwlwm<br>• Rhoi her i'r holl ddysgwyr<br>• Defnyddio cyfuniad o ddulliau<br>• Defnyddio cyfuniad o ddulliau<br>• Gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb<br>• Creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu | • Dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu<br>• Ymestyn oddi mewn ac ar draws y Meysydd<br>• Atgyfnerthu yn rheolaidd y sgiliau trawsgwricwlaidd,<br>• Annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain<br>• Hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol<br>• Hybu cydweithio |

| Egwyddorion Cynnydd | Mae'r disgybl yn gwneud cynnydd yn ei… |
|---|---|
| Effeithiolrwydd cynyddol fel dysgwr | Effeithiolrwydd |
| Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol | Gwybodaeth |
| Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y meysydd | Dealltwriaeth |
| Mireinio sgiliau a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth eu defnyddio a'u cymhwyso | Sgiliau |
| Creu cysylltiadau a throsglwyddo'r dysgu i gyd-destunau newydd | Cysylltu a throsglwyddo |

# Cysyniadau Dysgu

Gweler isod y cysyniadau dysgu sy'n deillio o'r 27 Datganiad o'r Hyn Sy'n Bwysig. Bydd y cysyniadau yma'n rhedeg ar draws ein cwricwlwm fel llinynnau er mwyn gwreiddio a rhoi hanfod i'r dysgu.

## Hanfod y dysgu - Ein Lliynynnau

| Y Dyniaethau | | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | | Iechyd a Lles | |
|---|---|---|---|---|---|
| • Gofyn Cwestiynau a ffurfio ymholiadau<br>• Arsylwi ac ymchwilio<br>• Deall a gwerthuso tystiolaeth<br>• Cyflwyno casgliadau a barnau<br>• Datblygu barn eich hun ac eraill<br>• Deall barnau a phersbectifau eraill<br>• Newid persbectifau<br>• Rhyngberthnasoedd a rhyngddibyniaethau<br>• Lleoedd<br>• Gofodau | • Newidiadau mewn llefydd, gofodau ac amgylcheddau<br>• Newid a pharhad<br>• Achos ac effaith<br>• Hunaniaeth<br>• Amrywiaeth<br>• Cymuned<br>• Llywodraethiant<br>• Cydberthynas<br>• Cyfiawnder, anghydraddoldeb a hawliau<br>• Dinasyddiaeth, ymddygiad a gweithred (wedi'i gysylltu â chynaliadwyedd)<br>• Cwestiynau moesegol a moesol ac effaith penderfyniadau<br>• Gweithredu cymdeithasol | • Ymholi, ymchwilio, arbrofi<br>• Cyd-destun dylunio a meddwl arloesol<br>• Dylunio gwneud a penderfyniadau<br>• Dylunio cyfathrebu<br>• Meddwl trwy systemau<br>• Defnydd diogel o offer a deunyddiau<br>• Prototeipio a chreu<br>• Ecosystemau<br>• Pethau byw<br>• Priodweddau defnyddiau<br>• Adweithiau cemegol<br>• Echdynnu, mireinio a dadansoddi | • Grymoedd a mudiant<br>• Egni<br>• Trydan<br>• Tonnau<br>• Magnetedd<br>• Systemau cyfrifiadurol<br>• Diogelwch seiber<br>• Algorhithmau<br>• Data<br>• Iechyd ac afiechyd | • Llythrennedd Corfforol<br>• Effaith Maeth<br>• Cysylltiad emosiynol a chorfforol<br>• Iechyd a diogelwch corfforol<br>• Hunan-ymwybyddiaeth a hunan-reoleiddio<br>• Cyfathrebu a gofyn am gymorth<br>• Myfyrio<br>• Empathi<br>• Dewisiadau gwybodus<br>• Effaith penderfyniadau<br>• Rheoli risgiau<br>• Dylanwad<br>• Gwerthoedd | • Perthnasoedd<br>• Cyfathrebu teimladau<br>• Gwrthdaro<br>• Diogelwch<br>• Parch |

# Hanfod y dysgu - Ein Lliynynnau

## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Ieithoedd a hunaniaeth
- Defnyddio ieithoedd
- Cysylltiadau rhwng ieithoedd
- Amrywiaeth mewn ieithoedd
- Trawswieithu
- Datblygu dealltwriaeth
- Gwrando ag empathi
- Strategaethau darllen
- Casgliad
- Effaith lluniadau gramadegol ystyr testunau
- Ymateb i destunau
- Geirfa
- Cyfathrebu'n effeithiol
- Crefftio lleferydd
- Myfyrio ar fy sgiliau cyfathrebu
- Cydweithredu a thrafod
- Llawysgrifen
- Sillafu
- Atalnodi
- Cyfathrebu syniadau a barnau
- Cynulleidfa a phwrpas
- Ymgysylltu â llenyddiaeth
- Creu llenyddiaeth
- Ymateb i lenyddiaeth
- Datblygu empathi drwy lenyddiaeth

## Mathemateg a Rhifedd

- Y system rifau
- Perthynas â rhifau
- Cyfrifiadau
- Llythrennedd ariannol
- Patrymau a dilyniannau
- Cydraddoldeb ac anghydraddoldebau
- Trin
- Datrys
- Graffio
- Mesur
- Siâp a gofod
- Safleoedd
- Onglau
- Casglu data
- Cynrychioli data
- Dadansoddi data
- Tebygolrwydd

## Y Celfyddydau Mynegiannol

- Technegau ac adnoddau
- Hunaniaeth a diwylliant
- Cyfathrebu'n effeithiol
- Gwerthuso a datblygu
- Cyd-destun, amser a lle
- Cyfathrebu artistig
- Cynulleidfa a phwrpas
- Technegau a sgiliau
- Cynllunio gweithiau creadigol
- Perfformio, cyflwyno a rhannu gweithiau creadigol
- Mynd i'r afael a heriau creadigol a'u rheoli
- Iechyd, diogelwch ac ystyriaeth o eraill

# Our assessment arrangements to support progress

At Ysgol Gymunedol Rhydypennau, effective assessment will be a tool to ensure that all of our learners progress in the ways described in the principles of progression, supporting them to develop towards the four purposes.

Assessment in our school has three main roles in the process of enabling learner progression

1. Supporting individual learners on an ongoing, day-to-day basis

2. Identifying, capturing and reflecting on individual learner progress over time

3. understanding group progress in order to reflect on practice.

# Ein trefniadau asesu er mwyn cefnogi cynnydd

**Cynllunio**

- Rydym wedi cytuno ar gysyniadau dysgu sy'n deillio o'r 27**Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig**
- Bydd y cysyniadau yma yn rhedeg ar draws ein cwricwlwm fel llinynnau er mwyn gwreiddio a rhoi hanfod i'r dysgu

**Deall Cynnydd**

- Rydym yn defnyddio'r Egwyddorion Cynnydd er mwyn deall cynnydd, a sicrhau bod yna ddilyniant o fewn ein Cwricwlwm
- Byddwn yn cydweithio yn fewnol, gyda'r clwstwr ac ymhellach er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd

**Asesu'r Cynnydd**

- Bydd ein trefniadau asesu yn cefnogi ein dysgwyr i sefydlu dealltwriaeth o'r cwricwlwm rydym wedi ei gynllunio, ac yn cefnogi eu cynnydd ar hyd y continwwm

# Our assessment arrangements to support progress

**Planning**

- We have decided on concepts derived from the 27 **What Matters Statements**
- These concepts will run across our curriculum as threads that give the essence of learning

**Understand progression**

- We use the Principles of Progression and Descriptors of Learning to understand progress and to ensure that there is continuity within our Curriculum.
- We will collaborate internally, with the cluster and further to develop a shared understanding of progression

**Assessing Progress**

- Our assessment arrangements will support our practitioners to establish learners' understanding of the curriculum we have designed, and support learners' progress along the continuum.

# Egwyddorion ein trefniadau asesu er mwyn cefnogi cynnydd

Bydd datblygiad proffesiynol ymarferwyr yn flaenoriaeth parhaus. Gyda'r hyfforddiant a'r gefnogaeth briodol, mae asesu yn arf y gellir ei ddefnyddio'n fwy effeithiol, effeithlon a hyderus. Gall hyn helpu i gysylltu cwricwlwm ac addysgeg yn gryfach, deall gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr yn well, a chefnogi disgyblion yn eu dilyniant dysgu.

Bydd asesu yn rhywbeth byddwn yn gwneud gyda'r dysgwr ac ar gyfer y dysgwyr. Mae dealltwriaeth ymarferwyr o bob dysgwr unigol, sy'n deillio o asesiadau, yn hanfodol wrth gefnog cynnydd. Wrth i ddisgyblion datblygu'r sgiliau a gwybodaeth perthnasol, byddwn yn sicrhau ei bod y ddysgwyr sy'n ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â'r broses asesu, wrth iddynt symud ar hyd y continwwm.




Ni ellir datgysylltu asesu oddi wrth waith cynllunio cwricwlwm a deall cynnydd. Byddwn yn hollol glir o hanfod y dysgu ar gyfer tasgau ac bydd ein trefniadau asesu yn canolbwyntio ar y bwriadau dysgu a chefnogi dealltwriaeth ddofn. Byddwn yn gwybod beth ydym yn chwilio am wrth i ni asesu ein dysgwyr.

Bydd asesu yn rhan annatod o ddysgu ac addysgu ac yn cyfrannu at ddatblygu darlun cyfannol o'r dysgwr – ei gryfderau, y ffyrdd y mae'n dysgu, a'i feysydd i'w datblygu – er mwyn llywio'r camau dysgu ac addysgu nesaf.

Mae lles pob dysgwr yn rhan allweddol o'n cwricwlwm ac rydym am fod hwn yn cael ei adlewyrchu o fewn ein trefniadau asesu. Bydd cynnydd ein dysgwyr yn cael ei ddathlu wrth i ni annog pob un o'n dysgwr i gyrraedd eu llawn potensial.

Byddwn yn defnyddio ystod eang o ddulliau asesu er mwyn cefnogi ein dysgwyr. Rydym hefyd yn cydnabod gall trefniadau asesu amrywio ar wahanol adegau ar y continwwm.

Bydd cyfathrebu'n barhaus â rhien/gofalwyr yn ffordd bwysig o feithrin cydberthnasau cadarnhaol Gall hyrwyddo cynnydd dysgwyr drwy helpu rhieni a gofalwyr i ddeall sut y gallent gefnogi dysgu yn yr ysgol a thu allan. Gall ymgysylltu'n effeithiol â rhieni a gofalwyr hefyd roi sicrwydd i rieni o ran cynnydd eu plant. Byddwnhefyd yn ystyried pobl eraill sy'n bwysig i ddysgwr, fel eu heiriolwr neu weithiwr cymdeithasol.

Mae deall sut y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd yn hanfodol i gynllunio'r cwricwlwm a threfniadau asesu, yn ogystal â gwaith cynllunio ac arferion ystafell ddosbarth. Byddwn yn datblygu strategaethau er mwyn datblygu a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydder mwyn sicrhau prosesau dibynadwy sydd yn cefnogi cynnydd.

# Our assessment arrangements to support progress

Professional development for practitioners will be an ongoing priority. With the right training and support, assessment is a tool that can be used more effectively, efficiently and confidently. This can help link curriculum design and pedagogy to support learners in their learning progression.

Assessment will be something we will do with the learner and for the learners. As pupils develop their metacognition skills, we will ensure that learners engage more directly with the assessment process, as they move along the continuum.




Assessment will be an integral part of learning and teaching and contribute to developing a holistic picture of the learner – their strengths, the ways in which they learn, and their areas to be developed (to inform the next stages of learning and teaching)

Assessment cannot be disconnected from curriculum planning and understanding progression. We will be clear of the essence of learning for tasks and our assessment arrangements will focus on the learning intentions and support deep understanding. We will know what we are looking for as we assess our learners.

The wellbeing of all learners is a key part of our curriculum as we encourage each of our learners to reach their full potential and celebrate learner progress

We will use a wide range of assessment methods to support our learners. We also recognise that assessment arrangements can vary at different times on the continuum .

Continuous communication with parents/carers will be an important way to build positive relationships. It can promote learner progress by helping parents and carers understand how they can support learning in school and outside. Engaging effectively with parents and carers can also reassure parents in their learner's progress. We will also consider other people who are important to a learner, such as their advocate or social worker.

Understanding how learners progress is essential to curriculum design and assessment arrangements, as well as classroom practice. We will develop strategies to develop a shared understanding of progress to ensure reliable processes that support progress.

# Trosolwg o'n trefniadau asesu er mwyn cefnogi cynnydd

**Cynllunio'r Cwricwlwm**

Rydym yn dylunio Cwricwlwm sydd efo dilyniant clir ynddo. Mae hanfod y dysgu yn glir ar gyfer ein dysgwyr.

**Pennu cynnydd dysgwr unigol dros amser, llunio darlun ohono, a myfyrio arno**
**Deall cynnydd grŵp er mwyn myfyrio ar arferion**

**Enghrefftiaiu**

- Profion mewnol
- Profion cenedlaethol
- Gwerthuso'r cynnydd
- Llyfr llwyddiant/Portffolios
- Craffu llyfrau
- Llais y Dysgwyr

Bydd yr ysgol yn gallu gweithredu ar y data yma e.e trwy gynnal cyfarfodydd cynnydd, prosiec ymholi YSD ayyb

Dylai dysgwyr ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â'r broses asesu, wrth iddynt symud ar hyd y continwwm 3 i 16.

Dysgwyr yn gwneud cynnydd

**Datblygu dealltwriaeth o gynnydd**

Byddwn yn cydweithio er mwyn sicrhau dealltwriaeth o gynnydd sydd yn gwreiddio o'r Egwyddorion Cynnydd

**Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd**

**Enghrefftiaiu**

- Pinc perffaith + Gwyrdd Gwella
- Hunan Asesu + Asesu Cyfoed
- Adborth lafar neu ysgrifenedig
- Meini prawf llwyddiant

Asesudysgwyr ar fynediad

- Trafodaethau proffesiynol
- Edrych ar waith
- Arsylwadau
- Mewnbwn allanol

# Assessment arrangements on a page

**Curriculum design**
What is the purpose? What is the essence of learning? What are the learning intentions?

**Progression**
What does progression look like in respect of that learning?

**Identifying, capturing and reflecting on individual learner progress over time**
**Understanding group progress in order to reflect on practice**

- Internal exams
- Literacy and numeracy tests
- Grading progress
- Progress files

This will inform schools in nex steps e.g. pupil progress meetings, enquiry as SLO etc

Learners should engage more directly in the assessment process, as they progress along the 3 to 16 continuum.

Learners making progress

**Supporting individual learners on an ongoing, day-to-day basis**

- Pink Perfect / Green for Growth
- Self & Peer assessment
- Verbal and written feedback
- Co constructing success criteria

On entry assessment

- Professional dialogue
- External input
- Previous reports
- Observations